**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

01 Chwefror 2023

Annwyl Mr Isherwood,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2022, yn gofyn am wybodaeth am gyllid y pedwar Comisiynydd a'u swyddfeydd. Mae gwybodaeth am broses cymeradwyo'r Gyllideb a chymariaethau ariannu ynghlwm.

Gobeithio bod hyn o gymorth i'r Pwyllgor wrth ystyried ariannu'r Comisiynwyr a sut mae'n cefnogi eu rolau a'u gweithgareddau pwysig.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS A GWEINYDDIAETH GYHOEDDUS**

**CAIS AM DYSTIOLAETH: CYLLIDO COMISIYNWYR YNG NGHYMRU**

**Cefndir**

1. Mae'r pedwar Comisiynydd yn gweithredu yn unol â darnau ar wahân o ddeddfwriaeth, ond rhaid i'r gwaith o reoli eu cyllid gydymffurfio â'r fframwaith ariannol yng Nghymru, y manylir arno yng Nghanllawiau Cyllidebu Cyfunol[1] a Llawlyfr Adrodd Ariannol[2] Trysorlys EM, ac yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[3] Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â phroses gosod cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru sy'n cael ei rheoli gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd.

2. Rhaid i'r Comisiynwyr gydweithredu â'u timau partneriaeth drwy ddarparu'r holl gymorth a gwybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi weithredu ei phenderfyniadau cynllunio cyllideb.

3. Bydd y Gweinidog perthnasol yn cadarnhau'r cyllidebau adnoddau cyfalaf a refeniw net a swm y cyllid cymorth grant (arian parod) sydd i'w ddarparu i'r corff ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o'r dyraniad cyllideb adnoddau net, bydd y Gweinidog hefyd yn cadarnhau lefel yr incwm a allai gael ei gadw gan y corff i ariannu gweithgarwch yn y flwyddyn ariannol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Fel arfer fydd hyn ddim hwyrach na mis ar ôl i'r gyllideb derfynol gael ei chytuno gan y Senedd. Rhaid i unrhyw arian ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael ei awdurdodi gan y Senedd yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol.

4. Lle bo'n bosibl, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau cyfalaf a refeniw adnoddau dangosol ar gyfer y blynyddoedd dilynol i lywio’r gwaith o gynllunio cyllidebau. Fodd bynnag, gall manylion cyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod ostwng neu gynyddu yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios Gweinidogol, amrywiadau yn y gyllideb (ar lefelau'r DU a Chymru) neu unrhyw bryderon am effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y corff sy'n cael ei ariannu. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i Gomisiynwyr fodelu gwahanol opsiynau gweithgarwch yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael.

5. Wrth osod cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf a gofynion cymorth grant (arian parod), rhoddir ystyriaeth i lefelau’r cronfeydd wrth gefn sydd gan y corff (os o gwbl), a'r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill.

**Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am yr eitemau canlynol:**

[1] https://www.gov.uk/government/collections/consolidated-budgeting-guidance
[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1124824/MASTER_FINAL_2022-23_FReM.pdf
[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf

## Proses gymeradwyo’r gyllideb

**Y broses gyllidebol ar gyfer cytuno ar yr amcangyfrifon a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr.**

6. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiynwyr gyflwyno amcangyfrifon o incwm a threuliau eu swyddfeydd i'r Gweinidogion Cymru perthnasol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi (hynny yw, erbyn 31 Hydref bob blwyddyn). Rhaid i Weinidogion archwilio'r amcangyfrifon a gyflwynwyd ac yna eu gosod gerbron y Senedd.

7. Mae'r gwaith o baratoi cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf yn y flwyddyn flaenorol ac mae derbyn rhagolygon y Comisiynwyr ym mis Hydref yn hwyrach nag sy’n ddelfrydol ar gyfer y broses hon. Wrth baratoi ar gyfer proses gynllunio’r gyllideb 2023-24, cynigiodd swyddogion fecanwaith newydd lle byddai'r Comisiynwyr yn cyflwyno drafft cynnar o ragolygon y gyllideb erbyn mis Gorffennaf 2022. Anfonodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg lythyr ym mis Mai 2022 yn gofyn am gyflwyno cyllidebau drafft yn gynnar, gan gynnwys amlinelliad o’r pwysau cyllidebol ac arbedion cost posibl, gyda chyfle i ddiweddaru'r rhain yn ddiweddarach pe bai angen hynny.

8. Cytunodd y pedwar Comisiynydd ar y cynnig hwn a chyflwyno eu drafftiau i'w timau partneriaeth, gan ganiatáu mwy o amser i graffu ar y cynigion a’u trafod cyn i'r amcangyfrifon cyllideb terfynol ddod i law yn unol â deddfwriaeth. Fel rhan o'r broses hon, ystyriodd y Gweinidogion swyddogaethau statudol a chynlluniau strategol y Comisiynwyr, a lefel yr adnoddau sydd eu hangen iddynt weithredu'n effeithiol a chyflawni eu swyddogaethau a'u nodau strategol. Trafodir yr amcangyfrifon a materion cyllid eraill yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng pob Comisiynydd a'u Gweinidog.

**Pa ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru/swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu darparu i’r Comisiynwyr cyn iddynt gyflwyno eu hamcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel gwybodaeth i helpu i flaengynllunio ariannol, gan gynnwys asesiad gorau Llywodraeth Cymru o lefel y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol a ffactorau i’w hystyried wrth baratoi’r amcangyfrifon.**

9. Mae timau partneriaeth yn rhannu rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru o ran cynllunio a phwysau fel rhan o'u hymgysylltiad â'r Comisiynwyr ac i gefnogi cyflwyno amcangyfrifon drafft yn gynharach. Helpodd hyn y Comisiynwyr i ragweld y pwysau cyllidebol ar wahanol agweddau o'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cawsant eu hannog i fod yn bragmataidd yn eu gofynion ac i ystyried ffyrdd o wneud arbedion cost lle bynnag y bo modd. Mae pob un o'r Comisiynwyr mewn sefyllfa debyg ble mai’r pwysau mwyaf ar y gyllideb yw costau staff, sy’n mynd ag oddeutu 80% o'u cyllidebau.

10. Ar ôl derbyn yr amcangyfrifon drafft, cynhaliodd swyddogion partneriaeth drafodaethau gyda swyddogion y Comisiynydd i sicrhau dealltwriaeth lawn o'u hanghenion, gan sicrhau hefyd bod gan y Comisiynydd ragolwg diweddar a realistig o'r sefyllfa gyllidebol. Nid oedd gwybodaeth am gyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gael nes i Lywodraeth y DU gyhoeddi Datganiad yr Hydref ar 17 Tachwedd 2022, felly gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael i'w rhannu gydag unrhyw gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru tan yn hwyr yn y broses gyllidebol.

**Pa broses sydd ar waith i gytuno ar unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif.**

11. Cyn i'r Senedd gytuno'n ffurfiol ar y Gyllideb, bydd swyddogion yn Llywodraeth Cymru a swyddfeydd y Comisiynwyr yn trafod cynigion y gyllideb fel y nodir uchod gyda'r nod o gytuno ar addasiadau os oes angen cyn cyflwyno'r amcangyfrifon terfynol ym mis Hydref. Cawsant lythyrau hysbysu am y gyllideb ar gyfer 2023-24 ar ddiwedd 2022. Yn unol â deddfwriaeth, caiff amcangyfrifon terfynol y Comisiynwyr eu harchwilio cyn eu gosod gerbron Senedd Cymru.

12. Mae Gweinidogion wedi gofyn am barhau gyda'r patrwm o gyflwyno rhagolygon drafft cynnar ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu rhwng Gweinidogion a'u Comisiynwyr i sefydlu hyn.

13. Bydd cyfle i Gomisiynwyr wneud newidiadau i'r alldro adnoddau disgwyliedig a'r arian parod sydd ei angen ar unrhyw adeg ac yn ystod y cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r tîm partneriaeth. Os yw'r Gweinidog yn cymeradwyo unrhyw newidiadau, mae dwy ffordd o ddarparu cyllideb adnoddau ychwanegol, er bod y ddwy yn cynnwys ysgrifennu at y Comisiynydd i'w hysbysu yn ffurfiol am y newidiadau. Rhoddir gwybod am weithgarwch pob Comisiynydd mewn prif grŵp gwariant penodol (MEG).

- Gellir darparu cyllideb adnoddau o fewn y gyllideb adnoddau bresennol ar gyfer y MEG os cafwyd digon o lithriant mewn mannau eraill yn y MEG hwnnw: ni fyddai hyn yn rhan o'r Gyllideb Atodol gan na fyddai'r gyllideb yn cael ei newid;
- Gellir darparu cyllideb adnoddau hefyd drwy drosglwyddiad MEG i MEG, neu drosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r comisiwn Cyllideb Atodol i'r Grwpiau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cynnig Cyllideb Atodol yn cael ei gefnogi gan ddyraniad y Prif Grŵp Gwariant sy'n cynnwys Llinellau Gwariant Cyllideb (BEL) ar gyfer cyllideb pob Comisiynydd.

14. Mae timau partneriaeth yn cwrdd â swyddogion y Comisiynwyr yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i gynllunio amserlen ar gyfer eu ceisiadau i dynnu arian i lawr – gan gynnwys faint fydd ei angen, a pha bryd. Maen nhw hefyd yn trafod unrhyw ofynion cyfalaf ychwanegol, fel newid prydlesi, a fydd efallai angen cymorth gan Weinidogion.

**Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft 2022-23 a Chyllideb aml-flwyddyn gyntaf Cymru gyntaf ers 2017. I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn symud i ddull 'Tymor Llywodraeth' o ariannu ar gyfer Comisiynwyr i hwyluso cynllunio tymor hwy a mwy o sefydlogrwydd, gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, tra'n cydymffurfio â gofyniad statudol i'r Comisiynwyr gyflwyno amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.**

15. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i roi cyllidebau dangosol i'r Comisiynwyr ar gyfer 2023-24 a 2024-25 drwy Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn dilyn adolygiad o wariant Llywodraeth y DU yn 2021, a roddodd amlen gyllidebol i ni ar gyfer 2022-23 i 2024-25. Nid yw'r rhain yn cael eu cadarnhau nes bod y llythyrau ariannu ffurfiol, sy'n nodi'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

16. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i roi sicrwydd cyllid mwy hirdymor i'n partneriaid i helpu gyda chynllunio ariannol, dim ond tan 2024-25 y mae Cymru wedi cael setliad ariannol gan Lywodraeth y DU ac felly mae cwmpas cyfyngedig ar gyfer cynllunio ariannol yn y tymor hwy. Dylid nodi bod cynlluniau Llywodraeth Cymru i roi cyfarwyddyd a sicrwydd tymor hwy i'r Comisiynwyr - ac i bob corff cyhoeddus datganoledig - wedi cael eu heffeithio gan broses ddiwygiedig y gyllideb a'r ymateb eithriadol sydd ei angen gan Drysorlys EM. Mae hyn yn golygu wrth gwrs bod rhai o'r camau a gymerwyd wedi gorfod addasu yn unol â rhagolygon ariannol y DU ac yn fyd-eang, sy'n effeithio ar bob cyllideb dan reolaeth Llywodraeth Cymru.

**A yw'r broses o gymeradwyo'r gyllideb yn cynnwys unrhyw adolygiad, ar draws y Timau Partneriaeth (noddwyr) o fewn adrannau Llywodraeth Cymru, o'r amcangyfrifon y mae Comisiynwyr Cymru yn eu cyflwyno bob blwyddyn. A yw hyn yn ceisio sicrhau cysondeb o ran ymagwedd, cyn belled ag y bo'n briodol ac yn ymarferol, ac os felly sut.**

17. Mae swyddogion timau partneriaeth o'r adrannau perthnasol yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein dulliau o gefnogi'r Comisiynwyr yn debyg. Trafodir materion megis cyllid, protocolau ar gyfer penodi Comisiynwyr, telerau penodi, adolygu cyflogau'r Comisiynwyr a chymharu'r opsiynau a gynigir gan Gomisiynwyr ar gyfer arbedion cost. Mae fformat a chynnwys amcangyfrifon ariannol yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hynny i geisio nodi arferion gorau. Roedd y grŵp hwn yn ganolog i sicrhau cysondeb wrth drin codiadau cyllidebol i gyrff y Comisiynwyr fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 13 Rhagfyr 2022, lle dyrannwyd codiad o 6% mewn cyllid refeniw i bob Comisiynydd i gynorthwyo gyda chyflogau yn 2023-24.

18. Yn unol â'r fframwaith ariannol, mae'r Comisiynwyr wedi symud i gyllid sy'n seiliedig ar adnoddau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynwyr i sicrhau bod eu cronfeydd wrth gefn yn cael eu tynnu i lawr a bod arian parod sy'n cael ei gadw yn cael ei reoli i 5% o'u cymorth grant arian parod blynyddol a ddyfarnwyd.

## Cymariaethau cyllid

**Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r casgliad:**

***…nodwn sylwadau'r Comisiynydd fod anghysondeb yn y cyllid rhwng Comisiynwyr Cymru. Er ein bod yn cydnabod bod gan bob Comisiynydd rolau a chyfrifoldebau gwahanol ac y bydd anghenion o ran adnoddau yn amrywio yn unol â hynny, nid oes eglurhad digonol i'r cyfiawnhad y tu ôl i'r dyraniadau adnoddau gwahanol, ac mae angen craffu pellach ar hyn. Credwn mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw mynd ati'n well i gyfiawnhau sut y rhoddir adnoddau i bob Comisiynydd.***

**Eich barn ar gasgliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch sut y caiff pob Comisiynydd adnoddau.**

19. Mae'r adnoddau a roddir i bob Comisiynydd yn gysylltiedig â'u rôl fel y nodir mewn deddfwriaeth. Bydd cynnydd o 6% i gyllid refeniw pob Comisiynydd yn y flwyddyn ariannol nesaf (2023-24). Mae'r codiad hwn yn rhagdybio setliad cyflog o 4% yn 2022-23 (yr un fath ag a weithredwyd yn Llywodraeth Cymru ar gyfer graddau dirprwyedig y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil) a chynnydd pellach tybiedig o 2% yn 2023-24. Er y gellir rheoli'r cynnydd hwn yng nghyllidebau presennol y Comisiynwyr ar gyfer 2022-23, bydd y cynnydd yn 2023-24 yn golygu y dylai'r Comisiynydd allu parhau i weithredu gyda'r niferoedd presennol o staff, a pharhau i sicrhau bod cyflogau staff yn cyd-fynd â graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Heb y cyllid hwn, mae'n debygol y byddai'r Comisiynwyr wedi gorfod cael gwared ar rai swyddi.

20. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cael cyfran fwy o gyllid na'r tri Chomisiynydd arall, sy'n adlewyrchu pwerau ehangach y Comisiynydd hwnnw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gweddill y Comisiynwyr yn cael oddeutu'r un lefelau o gyllid: er bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n amrywio, mae gan bob un alw tebyg ar adnoddau sy'n cael ei gymell i raddau helaeth gan gostau staffio.

21. Yn ei phenderfyniadau o ran pennu cyllidebau, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi ystyried materion adnoddau ar gyfer yr holl Gomisiynwyr y mae ganddi gyfrifoldeb ariannol drostyn nhw, ac wedi gallu cynnig cynnydd yn y cyllidebau ar gyfer 2023-24 a 2024-25 i'r Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, does dim sicrwydd o allu cynnig cynnydd tebyg yn y gyllideb mewn blynyddoedd i ddod, er y bydd y Gweinidog yn ystyried ei holl ofynion cyllidebol yn ystod proses flynyddol Llywodraeth Cymru o osod y gyllideb.

22. Yn ogystal â'r ddarpariaeth sylfaenol hon, mae Is-adran Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2022-23 a 2023-24 i hyrwyddo diddordeb rhyngwladol mewn datblygu cynaliadwy a dyheadau agenda llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r un Is-adran hefyd yn darparu adnoddau i gefnogi gwaith y Comisiynydd ar y fenter "Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang".

**A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r cyllid a ddyrennir ar draws y Comisiynwyr a/neu eu sefyllfaoedd ariannol priodol. Os felly, allwch chi roi manylion.**

23. Fel rhan o'n dull o gefnogi'r Comisiynwyr, cymharwyd y pwysau cyllidebol ar y gwahanol Gomisiynwyr, yn ogystal â'r mesurau a gymerwyd i sicrhau arbedion.

24. Y pwysau allweddol ar yr holl Gomisiynwyr yw costau staff (tua 80% o'r holl gostau). Mae dyraniad cyllideb yr holl Gomisiynwyr wedi cefnogi dyfarniadau cyflog addas yn unol â chodiadau cyflog Llywodraeth Cymru. Mae dau o'r Comisiynwyr – y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - wedi cael cyllid i sicrhau gwell cydraddoldeb cyflog drwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyflog sydd o leiaf yr un faint ag isafswm pwynt cyflog y radd gyfatebol yn Llywodraeth Cymru. Mae cyfanswm o naw corff cyhoeddus, gan gynnwys y ddwy swyddfa hon, wedi derbyn cyllid i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu.

25. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru yn 2014, gan Dr Mike Shooter. Arweiniodd hyn at nifer o argymhellion ar gyfer y Comisiynydd, Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad, fel yr oedd bryd hynny: cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd, Lesley Griffiths, yr ymateb terfynol i'r adolygiad ar 9 Chwefror 2016.

26. Yn dilyn adolygiad Dr Shooter, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi adolygiad gan y Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn annibynnol o'u trefniadau presennol o ran gwasanaethau cymorth. Dechreuodd yr adolygiad yn gynnar yn nhymor yr hydref 2015 gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian y trefniadau ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai rheng flaen a oedd yn cefnogi rolau cyhoeddus y Comisiynwyr, yn ogystal ag archwilio ac ystyried amryw o opsiynau eraill gan gynnwys trefniadau cydweithredol. Gwnaed hyn ochr yn ochr â'r gwaith o sefydlu gwasanaethau cymorth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol pan sefydlwyd ei swyddfa ym mis Ebrill 2016.

27. Ar 14 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ymgynghori ar ei bwriad i gynnwys y cyrff a restrir isod yn y diffiniad o 'gorff cyhoeddus' at ddiben Rhan 1 a Rhan 3 o'r Ddeddf honno:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

28. Yn ei hymateb ar 14 Hydref 2022, cytunodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'r rhestr o gyrff ond tynnodd sylw hefyd at yr angen i ddarparu cyllid ychwanegol i'r Comisiynydd i gefnogi'r cyrff hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda swyddogion y Comisiynydd i ystyried yr adnoddau ychwanegol posibl y gellir bod eu hangen ar y Comisiynydd i gefnogi'r rhestr arfaethedig o gyrff ychwanegol.

29. Mae un maes anghysondeb nad yw'n ariannol yn ymwneud â chyfnod swydd y pedwar Comisiynydd. Mae’r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael ei benodi am gyfnod o bedair blynedd gydag estyniad posibl o ddwy flynedd. Penodir y tri Chomisiynydd arall am gyfnodau o saith mlynedd.

**Nodwn ymateb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (Mai 2022) a oedd yn dweud ei bod wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru archwilio’r “cwmpas a’r angen am werthusiad o’r Ddeddf, a allai gynnwys asesiad o rôl a swyddogaethau’r Comisiynydd”. A yw swyddogion wedi gwneud y gwaith hwn, ac a yw’r Gweinidog wedi penderfynu yn ei sgil i werthuso’r Ddeddf? Byddai’r Pwyllgor hwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am y gwaith, gan gynnwys yr amseriad a’r cwmpas arfaethedig.**

30. Mae llawer o fanteision posibl i gynnal gwerthusiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf 2015. Mae mwy na chwe blynedd wedi pasio ers i'r Ddeddf ddod i rym, felly mae'n ymddangos ei bod yn amserol nawr i gynnal gwerthusiad. Gallai gwerthusiad helpu i roi gwell dealltwriaeth o effaith ac effeithiolrwydd y Ddeddf a byddai'n ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i gyflawni amcanion polisi i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Byddai gwerthusiad aml-flwyddyn hefyd yn cryfhau'r diwylliant o welliant parhaus sy'n bodoli ar draws sector cyhoeddus Cymru ac sy'n ganolog i agenda Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

31. Ar y sail hon, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cynghori swyddogion i archwilio cwmpas gwerthusiad o'r fath a'r angen amdano. O ystyried cwmpas eang y Ddeddf a'i chyrhaeddiad ar draws sefydliadau yng Nghymru, mae'r cam cwmpasu cychwynnol ar gyfer y darn hwn o waith wedi cynnwys ystyried amryw o gydrannau ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Bydd y Gweinidog yn rhoi diweddariad i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'n rhanddeiliaid ehangach ar y cynnydd a’r dull gweithredu arfaethedig yn ddiweddarach yn 2023.

**A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw adolygiadau, fel gwaith craffu neu werthuso ôl-ddeddfwriaethol, sy’n ystyried rolau’r Comisiynwyr eraill yng Nghymru a/neu eu costau o gymharu â’r amcangyfrifon a wnaed ar yr adeg y sefydlwyd pob rôl, gyda rhesymau i egluro unrhyw amrywiadau (lle bo’n briodol).**

32. Heblaw am adolygiad y Comisiynydd Plant yn 2014, ni chafwyd unrhyw adolygiadau ffurfiol o'r math yma yn edrych yn ôl ar yr amcangyfrifon a wnaed ar adeg sefydlu pob Comisiynydd. Mae'r Comisiynwyr a'u timau partneriaeth yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar yr angen i gysoni telerau ac amodau'r Comisiynwyr er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder.

**Asesiad Llywodraeth Cymru o effaith dynodiad swyddfeydd y Comisiynwyr o dan y newidiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ar eu sefyllfa ariannol bresennol ac yn y dyfodol. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i gefnogi'r Comisiynwyr i symud i'r trefniadau newydd?**

33. Egwyddor gyffredinol cysoni yw y dylid rhoi dynodiad i bob corff cyhoeddus o fewn y sector llywodraeth ganolog a'u hystyried ar gyfer eu cyfuno o fewn Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r dynodiad yn broses dechnegol 'busnes fel arfer' sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys y corff sydd i'w ddynodi o fewn atodlen y Gorchymyn. Nid yw cyrff y Comisiynydd yn cyrraedd y trothwy perthnasedd ar gyfer cyfuno yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid oes angen unrhyw gymorth ar gyfer y broses ddynodi heblaw i egluro'r broses a'r effaith. Rydym wedi gwneud hyn droeon ers yr ymgynghoriad cyntaf yn 2019, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiynwyr a'r holl gyrff cyhoeddus perthnasol i roi'r fframwaith ariannol ar waith.

34. Rhan o'r ymarfer cysoni yw esbonio sut y mae'r fframwaith ariannol yng Nghymru yn berthnasol i bob endid yn y sector llywodraeth ganolog. Mae hyn yn cynnwys esbonio sut y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, fel ceidwad y sector cyhoeddus yng Nghymru, gydymffurfio â fframwaith ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi, y manylir arno mewn Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, wrth gynllunio, monitro ac adrodd ar y gweithgarwch ar gyfer y sector llywodraeth ganolog cyfan yng Nghymru. Mae gan grwpiau'r disgresiwn i gytuno ar ryddid gweithredu penodol gyda chyrff hyd braich unigol: fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Grwpiau reoli'r rhain o fewn y fframwaith ariannol cyffredinol. Mae'r ymarfer hwn hefyd yn cynnwys rheoli arian parod, gan fod cadw lefelau uchel o arian parod yn cael ei weld fel defnydd aneffeithlon o adnoddau cyhoeddus a bydd yn cynyddu'r costau benthyca ar gyfer y pwrs cyhoeddus. Er mwyn sicrhau nad oes lefelau gormodol o arian parod yn cronni, mae gan Lywodraeth Cymru oddefiant safonol o 4% o'r cymorth grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a 2% ar ddiwedd y flwyddyn. Oherwydd efallai y bydd angen arian parod ar y Comisiynwyr i ymchwilio i un o Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru, cafodd y goddefiant hwn ei gynyddu i 5% ar gyfer pob Comisiynydd, a chytunwyd ar drefniadau a fyddai'n osgoi'r angen i geisio cyllideb adnoddau gan y Gweinidog sy'n destun yr ymchwiliad er mwyn cynnal yr ymchwiliadau hyn, pe bai'r sefyllfa'n codi.

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r ddogfen fframwaith safonol, sy'n cynnwys trefniadau cyllidebu adnoddau a rheoli arian parod, a bydd yn gweithio gyda phob corff hyd braich i roi'r fframwaith diwygiedig hwn ar waith. Bydd fframwaith diwygiedig, gan gynnwys unrhyw ryddid gweithredu, y goddefiant arian parod o 5% a'r broses ar gyfer sicrhau cyllideb i ariannu ymchwiliadau, yn cael ei gynnwys yn y fframwaith sydd i'w gytuno a'i roi ar waith gyda'r Comisiynwyr. Mae'r wybodaeth adnoddau sydd ei hangen ar gyfer cynllunio'r gyllideb eisoes yn rhan o amcangyfrifon y Comisiynwyr sy'n cynnwys yr alldro adnoddau disgwyliedig a'r arian parod sydd ei angen. Bydd y tîm partneriaeth yn trafod ac yn cytuno ar unrhyw wybodaeth ariannol arall sydd ei hangen i gefnogi cynllunio cyllidebau.